GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.

DILYNWCH Y COD TEITHIO.

CYNLLUN GWERS CYFNOD ALLWEDDOL 2

Cyflwyniad i Athrawon

Mae hawl gan blant a phobl ifanc i deithio'n ddiogel. Mae hawl hefyd gan y rhai sy'n teithio gyda hwy neu wrth eu hymyl i deithio'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda wrth deithio'n ôl a blaen i'r ysgol neu'r coleg, er bod ymddygiad gwael ac aflonyddgar yn gallu bod yn broblem. Mae hyn yn fygythiad gwirioneddol i ddiogelwch a gall y canlyniadau fod yn drasig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n benderfynol o gefnogi awdurdodau lleol, gweithredwyr, gyrwyr ac ysgolion sy'n gorfod delio ag ymddygiad gwael ac aflonyddgar. Dyna pam mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r ***Cod Teithio***. Bwriad y Cod Teithio yw gwella diogelwch ar gludiant ysgol trwy fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol. Mae'r Cod Teithio'n hyrwyddo teithio diogel i bob dysgwr, trwy osod y safonau ymddygiad sydd eu hangen. Roedd plant a phobl ifanc yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cod Teithio a chynhaliwyd gweithdai ledled Cymru i gasglu eu syniadau, eu mewnbwn a'u hadborth.

Mae cosbau yn rhan o'r Cod Teithio. Os na ddilynir y Cod Teithio, gall awdurdodau lleol, ysgolion neu sefydliadau addysg eraill gymryd camau yn erbyn plant a phobl ifanc. Gallai hyn gynnwys colli'r hawl i gael cludiant i'r ysgol am gyfnod a'u gwahardd o'r ysgol yn y pen draw.

Fel ymarferydd gallwch chwarae rôl bwysig, gan dynnu sylw plant a phobl ifanc at eu hawliau, ymddygiad derbyniol a chanlyniadau ymddygiad annerbyniol. Mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP). O ganlyniad, wrth addysgu am hawliau, mae angen adlewyrchu bod hawliau'n gyffredinol a diymwad ac nad ydynt yn gysylltiedig ag, nac yn dibynnu ar ymddwyn mewn ffordd arbennig. Mae hefyd yn bwysig nodi pan ydych yn derbyn hawl i'ch hun eich bod hefyd yn ei dderbyn i eraill ac na ddylech ymddwyn mewn ffordd sy'n cyfyngu ar fwynhad eraill o'u hawliau.

Mae gwybodaeth ar **http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/?lang=cy a hefyd**
ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Bwriad y cynllun gwers hwn yw eich helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r Cod Teithio. Diolch am eich cefnogaeth gyda'r gwaith pwysig hwn.

Am fwy o wybodaeth neu i gyfeirio cydweithwyr at y Cod, ewch i **http://www.codteithio.org**

CYNLLUN GWERS CYFNOD ALLWEDDOL 2

Am Gynllun Gwers Cyfnod Allweddol 2

Cefndir

Mae'r cynllun gwers hwn yn cyflwyno'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan. Mae nifer o gysyniadau allweddol yn sail i'r Cod Teithio: cysyniadau megis hawliau, ymddygiad a chodau ymddygiad.

Gallai'r gwersi hefyd gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP), yn arbennig Erthyglau 2, 3, 6, 13, 28, 29 a 42. Gellir cael adnoddau i helpu i addysgu'r CCUHP ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk/**

Nod

- Codi ymwybyddiaeth o'r Cod Teithio
- Creu dealltwriaeth o oblygiadau'r Cod Teithio i blant.

Deilliannau dysgu

- Dylai pob dysgwyr allu disgrifio'r Cod Teithio
- Dylai pob dysgwyr allu disgrifio canlyniadau peidio â chydymffurfio â'r Cod Teithio
- Dylai pob dysgwyr allu disgrifio'r manteision o gydymffurfio â'r Cod Teithio
- Dylai pob dysgwr fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau wrth deithio yn ôl a blaen i'r ysgol.

Adnoddau Technegol

- Cyfrifiadur a thaflunydd digidol
- Mynediad i'r Rhyngrwyd i ddangos **www.codteithio.org.** Ar gyfer defnydd athrawon yn unig.

Adnoddau Addysgu a Dysgu

- Gellir cael adnoddau CCUHP, i ddysgu am hawliau ar safle Gwneud Pethau'n lawn ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**
- Ffeil PowerPoint, *Cyflwyno'r Cod Teithio CA2*
- Dalen Ddysgu
- Digon o gopïau o'r Cod Teithio i bob dysgwr. Mae'r Cod Teithio ar gael o **www.codteithio.org**
- Darn bach o bapur i bob dysgwr
- Papur A3 ar gyfer y bwrdd stori.

Dull

1. Amcanion [5 munud]

Cyflwyno a rhannu amcanion y wers gyda'r dosbarth.

2. Deall Codau Ymddygiad [10 munud]

Mae Sleid 3 y ffeil PowerPoint , *Cyflwyno'r Cod Teithio,* yn dangos sgrinlun o chwiliad ar Google.

Eglurwch fod chwiliad wedi ei wneud ar gyfer y geiriau "Cod Ymddygiad/Code of Conduct". Mae'r animeiddiad ar y sleid yn datgelu'r pwyntiau canlynol:

Tynnwch sylw at:

- Chwiliad am dudalennau gwe o'r DU yw hwn
- Nifer y canlyniadau (mae "Cod Ymddygiad" yn amlwg yn bwnc pwysig).
- Y gwahanol Godau Ymddygiad – cyfreithwyr, newyddiadurwyr, rheolwyr, gwerthwyr tai – hyd yn oed athrawon (yn Lloegr)

Ewch i Sleid 4 a dangoswch fod hyd yn oed chwaraewyr proffesiynol yn cadw at godau ymddygiad.

CYNLLUN GWERS CYFNOD ALLWEDDOL 2

Trafodwch gyda'r dosbarth beth maen nhw'n feddwl yw ystyr y geiriau "Cod Ymddygiad".

Trafodwch sut mae pob un ohonom yn gorfod byw yn ôl rhai codau ymddygiad yn yr ysgol, wrth chwarae ac wrth weithio.

- Pa godau sydd i'w cael yn yr ysgol? (e.e. siarter/rheolau dosbarth, rheolau'r buarth chwarae, ymddygiad mewn coridorau, defnyddio'r Rhyngrwyd, amser cinio...)
- Pam fod Codau Ymddygiad yn bodoli?
- Beth sy'n digwydd os nad yw pobl yn eu dilyn?
- E.e. os nad ydych yn cadw at reolau buarth chwarae'r ysgol?
- Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd i chwaraewr rygbi sy'n torri'r cod?

Gweithgaredd A ar y Ddalen Ddysgu - gofynnwch i ddysgwyr gwblhau'r brawddegau. Trafodwch eu diffiniadau a chytunwch ar ddiffiniad dosbarth.

2. Pam cael Cod Teithio? [10 munud]
Gwnewch arolwg dosbarth cyflym, drwy godi dwylo neu ddull tebyg, o'r gwahanol ffyrdd y mae dysgwyr fel arfer yn teithio i'r ysgol (bws, beic, car, cerdded).

Trafodwch gyda'r dosbarth pa mor ddiogel y maen nhw'n teimlo wrth deithio i'r ysgol. Bydd angen bod yn sensitif i brofiadau yn y gorffennol yma.

Gweithgaredd B ar y Ddalen Ddysgu - gofynnwch i ddysgwyr gwblhau'r brawddegau. Trafodwch eu hymatebion i

- Pethau sy'n gwneud i mi deimlo'n anniogel
- Pethau sy'n gwneud i mi deimlo'n anhapus
- Pethau sy'n gwneud i mi deimlo'n flin

Soniwch wrth y dosbarth fod pob un ohonom, o bryd i'w gilydd, yn gwneud pethau sy'n gwneud i eraill deimlo'n anniogel neu'n flin.

Rhannwch ddarn bach o bapur i bob dysgwr a gofynnwch i'r dosbarth ysgrifennu am unrhyw beth maen nhw wedi ei weld neu wedi ei wneud eu hunain a allai wneud i eraill deimlo'n anniogel, yn anhapus neu'n flin.

Bydd angen bod yn ofalus wrth wneud hyn gan eu hatgoffa o'r rheolau sylfaenol ynglŷn â datgeliadau personol. Gweithgaredd anhysbys yw hwn ac ni ddylai dysgwyr rannu eu meddyliau ag eraill.

Casglwch y darnau papur a dewiswch rai ohonynt i'w trafod gyda'r dosbarth.

- Pa bethau ydych chi wedi eu gweld sy'n debyg?
- Pa bethau tebyg a wnaed i chi/ ydych chi wedi cael profiad ohonynt?
- Sut oeddech chi'n teimlo?
- Beth wnaethoch chi?
- Pam wnaethoch chi neu eraill ymddwyn fel hyn?
- Sut gellid bod wedi atal y sefyllfa?

Defnyddiwch Sleid 6 neu'r bwrdd i lunio rhestr o dan y penawdau "Ar fy ffordd yn ôl a blaen i'r ysgol mae gen i hawl i..." ac "Ar fy ffordd yn ôl a blaen i'r ysgol mae gen i gyfrifoldeb i..."

CYNLLUN GWERS CYFNOD ALLWEDDOL 2

Efallai y bydd angen egluro a helpu plant i ddeall y geiriau 'hawl' a 'cyfrifoldebau'.

3. Cyflwyno'r Cod Teithio [25 munud]
Treuliwch ychydig o funudau'n cyflwyno'r Cod Teithio i'r dosbarth. Mae Sleidiau 9 i 14 yn cyflwyno'r Cod Teithio mewn adrannau. Mae'r Cod Teithio a chopïau ohono ar gael o **www.codteithio.org.**

Tynnwch sylw at y ffaith fod tair prif adran (hawliau, cyfrifoldebau, diogelwch).

Tynnwch sylw at brif nodweddion pob adran.

Tynnwch sylw at ganlyniadau peidio â dilyn y Cod Teithio.

Tynnwch sylw at y ffaith fod Cod Teithio manylach ar gyfer ymddygiad ar fysiau ysgol. Gadewch Sleid 12 yn y golwg, neu rhannwch daflenni o'r sleid. Gofynnwch i'r dosbarth ddarllen drwy'r sleid/daflen yn dawel eu hunain a dewis un eitem o'r rhestr y maen nhw'n feddwl sy'n bwysig/yn aml yn cael ei hanwybyddu/sy'n eu synnu. Trafodwch yr ymatebion yn y fath fodd nes bod negeseuon allweddol y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar Fws Ysgol wedi eu harchwilio.

Gweithgaredd C ar y Ddalen Ddysgu -gofynnwch i'r dosbarth weithio mewn grwpiau bach. Mae gan bob grŵp o leiaf un copi o'r Cod Teithio.

Gofynnwch i'r grwpiau baratoi bwrdd stori a fyddai'n dweud stori am rywbeth a ddigwyddodd ar y daith i'r ysgol. Dangoswch pwy oedd yn rhan o'r digwyddiad, beth ddigwyddodd, sut torrwyd y Cod Teithio a beth ddigwyddodd o ganlyniad i hyn.

Rhannwch y byrddau stori a thrafodwch hwy gyda gweddill y dosbarth. Wrth drafod a gwneud pwyntiau dylid cyfeirio'n ôl at y Cod Teithio.

4. Ail grynhoi [5 munud]
Ail grynhoi'r prif bwyntiau.

Trafodwch gyda dysgwyr gyda phwy y gallan nhw siarad yn yr ysgol a gartref os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'u taith yn ôl a blaen i'r ysgol. Yn yr ysgol y Pennaeth sydd â'r cyfrifoldeb, er y gall ddirprwyo'r dasg i athro/athrawes arall, fel y Dirprwy Bennaeth.

Yng **Ngweithgaredd D** ar y Ddalen Ddysgu gofynnwch i'r disgyblion dynnu llun wyneb hapus i ddangos i ba raddau maen nhw'n deall y wers .

Awgrymir gweithgaredd gwaith cartref, i egluro'r Cod Teithio gartref.